

Sancteiddrwydd

Darllen: Effesiaid 1:4

Beth yn union ydi ystyr ‘sancteiddrwydd’? Yn yr ysgol ers talwm, byddai plant yn cyfeirio at un o’r m cyfoedion fel ‘Sant *hwn a hwn*’, a’r unig reswm oedd bod y bachgen hwn yn mynd i’r capel yn gyson ac yn gwisgo sandalau, haf a gaeaf. Gan ei fod yn mynd i’r capel, roedd yn ‘sant’, ac mae’n bur debyg bod y sandalau’n atgoffa’r plant eraill o Iesu Grist. Yn y Testament Newydd, ‘sant’ yw un sydd wedi ei ‘neilltuo’ neu ei ‘wahanu’ a’i osod o’r neilltu gan Dduw. Mae Duw’n neilltuo pobl i’w wasanaethu, ac ar yr un pryd yn eu puro i fod yn gymwys i’r gwaith. Prin y cyfeirir at ‘sancteiddrwydd Duw’ yn y Testament Newydd; ond fe gyfeirir at waith yr Ysbryd Glân yn neilltuo ac yn puro pobl. Yr Ysbryd Glân, felly, yw’r Sancteiddiwr, a’r Ysbryd hwn sy’n neilltuo ac yn galw pobl ar gyfer tasgau arbennig.

Ond mae’n rhaid bod yn wyliadwrus iawn wrth drafod sancteiddrwydd. Y perygl, fel gyda’r bachgen hwn yn yr ysgol ers talwm, yw cyplysu’r gair â ‘daioni’. Hogyn da, parchus oedd o, yn mynd i’r capel yn gyson. Hanfod sancteiddrwydd yw bod mewn perthynas arbennig â Duw, a’r berthynas honno wedi ei hewyllysio gan Dduw ei hun. Felly, nid pobl dda a pharchus yw saint ond pobl sydd wedi’u neilltuo gan Dduw. Ac mae byw bywyd moesol yn deillio o hyn am fod pobl yn ymwybodol o Dduw ac yn gweld moesoldeb fel rhan o waith Duw drwy’r Ysbryd Glân.

Fel sant, caiff y Cristion ei alw i fod ‘ar wahân’. Mae gwahaniaeth rhwng *bod a gwneud*. Mae’n bur debyg y byddai pawb ohonom yn hoffi gwneud pethau da a gweithio’n well yng ngwaith y deyrnas. Ond cyn y medrwn ni wneud a gweithredu dros Grist mae’n rhaid i ni ‘fod’. Ateb Iesu i Nicodemus (Ioan 3:1–21) oedd bod rhaid iddo gael ei drawsffurfio. Mae Cristnogaeth yn fwy na delfryd i’w dilyn ac athrawiaeth i’w byw a diwinyddiaeth i gredu ynddi. Mae yna berson i’w ddilyn. Wrth ddilyn

Iesu, cawn weld sut berson y dylen ninnau fod. Iesu yw'r esiampl. Mae Cristnogion yr oesoedd wedi dilyn Iesu, a'i osod yn batrwm i'w efelychu.

Mae'r Cristion yn cael ei neilltuo i waith arbennig. Mae llawer o wahaniaethau rhwng y Cristion a phobl nad ydyn nhw'n arddel y Ffydd. Un peth amlwg yw'r ymrwymiad, sef byw bywyd Crist. Mae yna ffordd Gristnogol i'w dilyn. Er enghraifft, beth mae'r Cristion yn ei wneud wrth wynebu sefyllfaoedd argyfyngus ein hoes – Syria, Irac, y Dwyrain Canol a llawer man arall yn y byd? Tueddu i felltithio a gwneud pethau'n waeth y mae'r byd, gan gredu mewn dialedd. Yn y Gwynfydau, dywed Iesu'n glir, 'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr', sef y rhai sy'n creu tangnefedd ac yn ei weithredu yn eu bywydau eu hunain, ac yn annog eraill i'w weithredu.

Caiff y Cristion ei neilltuo i bwrpas arbennig. Nid bod yn wahanol er mwyn bod yn wahanol. Y pwrpas yw dangos Crist yn ei fywyd, a chymell eraill i droi ato. Aeth geneth fach i mewn i eglwys gyda gweddill y dosbarth. Dangosodd yr offeiriad yr allor, a cheisiodd esbonio'r hyn oedd yn digwydd a pham fod yr allor mor allweddol ym mywyd yr eglwys. Ond yr hyn oedd yn mynd â sylw'r ferch fach oedd y ffenestri lliw uwchben yr allor a'r ffordd yr oedd y goleuni'n llewyrchu drwyddynt. Y noson honno, aeth yr eneth fach gyda'i mam i weld hen ŵr defosiynol oedd yn byw i lawr y ffordd; ac ar y ffordd adref, meddai'r fam wrth ei merch, 'Dyna ti, rwyt ti wedi gweld sant heddiw'. Cyplysodd y ferch fach y llun ar y ffenest liw ag ymarweddiad yr hen ŵr. Sant ydi rhywun sy'n gadael i'r golau lewyrchu drwyddo.

Myfyrdod pellach:

Beth yw eich diffiniad chi o 'sant'?

Sut mae'r cysyniad o sant wedi cael ei 'neilltuo' yn eich taro?